Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg
**Heol St Illtyd**
**Pentre'r Eglwys**
**Pontypridd**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF38 1RQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Garth Olwg

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg ym Mhentre'r Eglwys, sydd ychydig filltiroedd o dref Bontypridd, yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.  Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.  Mae 351 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 45 oed meithrin amser llawn.

Mae ychydig dros 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%.  Mae 42% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae'r ysgol wedi adnabod 15% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol  arbennig.  Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2010 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n sylweddol wrth iddynt gaffael medrau cyfathrebu Cymraeg ardderchog, gan ystyried eu mannau cychwyn. Yn gyffredinol, mae eu medrau Saesneg, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymfalchïo yn y gofal synhwyrol sydd ar gael iddynt. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd parchu eraill a gonestrwydd.

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang a chyfoethog o brofiadau dysgu i ddatblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Er hyn, mae rhifedd ar draws y cwricwlwm yn darged i'w wella gan yr ysgol.

Mae'r addysgu a'r asesu yn gadarn ar y cyfan ac mae'r gweithdrefnau i olrhain cynnydd a monitro deilliannau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion effeithlon yn ymateb yn fwriadus i anghenion unigolion bregus ac yn darparu gofal ac arweiniad defnyddiol iawn iddyn nhw a'u rhieni.

Mae gweledigaeth y pennaeth a'r llywodraethwyr ar gyfer datblygu'r ysgol yn glir. Mae'r amcanion strategol sy'n weithredol gan y pennaeth yn ffocysu'n uniongyrchol ar wella'r ddarpariaeth, safonau, lles a Chymreictod y disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod yr ysgol yn creu dilyniant effeithiol wrth gynllunio'r medrau, i herio pob disgybl, gan gynnwys y mwyaf abl

A3 Cysoni'r addysgu ysgogol a'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol

A4 Gwella atebolrwydd ac arferion corfforaethol arweinwyr ar bob lefel

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Lleiafrif y disgyblion sy’n cychwyn yn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sy’n cyfateb i’r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd sylweddol ac yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg rhugl a dealladwy mewn amser byr. Yn ogystal, mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni’n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae bron pob un disgybl yn cyflawni’n ardderchog wrth ddatblygu eu medrau llafar a gwrando. Yn fuan yn y dosbarth meithrin, maent yn deall bod gwrando’n astud ar oedolion ac ar ei gilydd mewn sesiynau dysgu yn rhan annatod o fywyd ysgol. O ganlyniad, wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn sgwrsio’n hyderus am eu gwaith. Maent yn deall pwrpas y dysgu a rôl yr athro fel ffynnon wybodaeth a’r sbardun i hybu’r dysgu. Mae llawer ohonynt yn esbonio’r hyn y maent yn ei wneud yn huawdl. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn esbonio’n glir pam mae plant o wledydd difreintiedig yn dibynnu ar ddarganfod dŵr glân yn ddyddiol. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed, yn enwedig wrth iddynt holi a dadlau gyda’i gilydd am droseddau a chosbau’r Tuduriaid.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau darllen hyderus. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg yn gywir ac eglur. Maent yn adeiladu geiriau anghyfarwydd trwy ddefnyddio strategaethau ffonig pwrpasol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn myfyrio am gynnwys eu llyfrau yn feddylgar. Maent yn frwd wrth nodi eu hoff gymeriadau gan gynnig rhesymau ystyrlon am eu teimladau wrth ymateb i straeon. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn aeddfed yn y ddwy iaith, gan ddiddori mewn llyfrau ffuglen a ffeithiol ac ymchwilio’n fanwl ar y we am fywydau cogyddion enwog. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn annibynnol i ddod o hyd i wybodaeth o wahanol ffynonellau, fel trefnu gwyliau a gwestai yn yr Eidal.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn ysgrifennu’n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn ystod o gyd-destunau diddorol. Ar y cyfan, mae llawer yn cyflwyno’u gwaith yn daclus ac mewn ffurfiau dealladwy. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau difyr yn gynyddol gywir yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da yn cynnwys dyddiadur bachgen o’r jyngl yn Affrica a thaith bywyd broga. Wrth drosglwyddo i gyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen daclus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu’n estynedig yn effeithiol yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn disgrifio bywyd milwr Rhufeinig trwy eu themâu a chofnodi pa ddeunyddiau sy’n hedfan bellach o gatapwlt mewn gwyddoniaeth. Er hyn, nid yw lleiafrif o ddisgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu cystal ag y gallant.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd pwrpasol mewn rhifedd. Maent yn datrys problemau rhif yn llwyddiannus, gan ddefnyddio strategaethau effeithiol ac adalw ffeithiau i gof yn hyderus. Ar y cyfan, maent yn cymhwyso’u gwybodaeth flaenorol yn weithredol mewn sefyllfaoedd newydd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn

trafod nodweddion graff a graddfeydd cywir, sy’n seiliedig ar wibdaith i brynu nwyddau yn yr archfarchnad leol.

Mae gan lawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o fedrau mathemategol.  Er enghraifft, mae rhan fwyaf y disgyblion iau yng nghyfnod allweddol 2 yn didoli gwrthrychau, gan ddefnyddio diagram Carroll yn erbyn meini prawf penodol yn gywir.  Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni heriau ar ffracsiynau, canrannau ac onglau i safon uchel.  Fodd bynnag, nid yw’r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso eu medrau rhifedd i’r un safon ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus.  Er enghraifft, maent yn defnyddio’r orsaf dywydd electronig i gofnodi gwybodaeth feintiol yn ddyddiol.  Mae llawer ar frig y cyfnod yn animeiddio’n llwyddiannus wrth greu cyflwyniadau electronig am fywyd lindys a thân mawr Llundain.  Mae’r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh pwrpasol, gan ddethol y dull cyfrifiadurol mwyaf effeithiol i gyflwyno’u gwaith.  Maent yn cymhwyso’u medrau yn gynyddol hyderus mewn amrywiol gyd-destunau a phynciau, sy’n atgyfnerthu eu medrau yn y meysydd hynny.  Er enghraifft, maent yn defnyddio basau data i gofnodi eu perfformiadau personol mewn gweithgareddau athletau yn briodol.  Yn ychwanegol, mae llawer yn gwneud defnydd effeithiol o wefannau dysgu diogel i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth ac adref.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae bron pob un disgybl yn cyfleu teimladau teyrngar am eu hysgol.  Maent yn cyhoeddi â balchder eu bod nhw’n ddiogel ac yn gwybod beth i’w wneud os oes rhywbeth yn eu poeni, trwy ddefnyddio’r system gefnogol, ‘Hawl i fod yn Hapus’.  Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ofalgar iawn o’i gilydd ac yn cydymdeimlo â phryderon eu cyfoedion.  Maent yn gwrando ar safbwyntiau eraill yn ofalus ac yn ymateb yn aeddfed a synhwyrol i’w gilydd.

Mae ‘Clust y Cyngor’, sy’n weithredol ar feinciau’r buarth, yn werthfawr ac yn cyfrannu’n effeithiol tuag at ymddygiad synhwyrol y rhan fwyaf o ddisgyblion.  Mae bron pob disgybl yn gwrtais, yn hyderus ac yn ymateb yn gadarnhaol wrth gyfarfod ag oedolion.  Er enghraifft, maent yn sgwrsio’n aeddfed, mynegi barnau’n glir a hylaw ac aros eu tro’n fonheddig wrth agor a chau drysau.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.  Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer eu cyrff yn rheolaidd fel dilyn cymeriadau ar sgrîn i wella’u ffitrwydd yn ystod ‘Chwaraeon Chwefror’.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall bod peryglon yn bodoli a all effeithio ar eu bywydau dyddiol.  O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn deall pa gamau i’w dilyn i leihau unrhyw risg pe bai’r angen yn codi.  Er enghraifft, wrth groesi’r ffordd yn wyliadwrus a gwisgo gwregys wrth deithio yn y car.

Mae bron pob disgybl, yn unol â’u hoed, yn datgan yn eglur bwysigrwydd diogelwch ar-lein.  Maent yn deall, ac esbonio’n ddi-flewyn-ar-dafod, peryglon posibl defnyddio’r we a chyfryngau cymdeithasol yn annoeth.  Mae’r arweinwyr digidol yn chwarae rôl allweddol i gyfoethogi ac amlinellu hyn ymhlith eu cyfoedion.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill, sy’n debyg neu’n wahanol iddyn nhw.  Maent yn wybodus am

nodweddion gwledydd sy'n datblygu'n economaidd a gwledydd dan anfantais, oherwydd rhyfeloedd, newyn neu sychder. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o bwysigrwydd cynaliadwyedd a gallant egluro arwyddocâd y cynlluniau masnach deg a banciau bwyd yn feddylgar.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n unigol, mewn parau ac mewn grwpiau yn gynhyrchiol. Maent yn aeddfed ac yn trafod eu gwaith yn hyderus. Mae bron pob un ohonynt yn barod i ddysgu ar gychwyn gwersi ac yn frwdfrydig i ymateb i heriau a phrofiadau newydd. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn newid o un gweithgaredd i'r llall yn hwylus. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn dewis symud yn annibynnol o greu llun â chreonau i werthu nwyddau gydag arian parod yng Nghaffi'r Garth. Effaith y cyfleoedd gwerthfawr hyn yw bod llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus. Maent yn awyddus i fynegi barnau bwriadus i effeithio ar fywyd yr ysgol yn gadarnhaol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Er enghraifft, mae'r aelodau'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r arweinwyr digidol yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddwys. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu rolau'n fawr, gan eu bod wedi eu dewis trwy etholiad gan eu cyfoedion. Maent yn trafod eu rolau arwain yn hyderus, gan roi rhesymau pwrpasol dros benderfynu ar ran eraill o fewn cymuned yr ysgol. Er enghraifft, aelodau'r cyngor ysgol fu'n ymchwilio i'r ffordd orau i leihau colli peli o'r cwrt chwaraeon. O ganlyniad ac er budd i eraill, y cyngor ysgol awgrymodd gosod y rhwyd uwchben yr ardal agored.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol, sydd yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Mae'r oedolion yn modelu iaith raenus ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol a chywrain yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae safonau llafar bron pob disgybl yn ardderchog gan ystyried eu mannau cychwyn.

Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r dosbarthiadau, mae'r gorarwain a chyflymder araf y gwersi yn llesteirio gallu'r disgyblion, yn enwedig y mwyaf abl, rhag cyrraedd hyd eithaf eu gallu. Mae'r berthynas waith gynhaliol sydd yn amlwg ymhob dosbarth yn meithrin parch a chwrteisi, ac yn creu naws lle y gall y disgyblion ddysgu'n gynhyrchiol.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn cefnogi'r dysgu yn fwriadus trwy gynnig ymyrraeth amserol a phwrpasol. Yn yr arfer orau, maent yn defnyddio amrywiol dechnegau holi i ddatblygu ymhellach ymatebion a syniadau'r disgyblion yn fedrus. Mae llawer o'r athrawon yn cynnig adborth defnyddiol iawn sydd yn sicrhau bod y disgyblion yn deall y camau sydd angen iddynt eu cymryd i wella eu gwaith trwy arferion asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r arfer dda hon yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r athrawon yn cynllunio a darparu ystod o brofiadau gwerthfawr sydd yn adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus iawn. Darperir cyfleoedd eang i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant, traddodiadau a hanes Cymru, er enghraifft hanes Y Fari Lwyd ac amryw straeon o'r Mabinogi. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i wrando ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg ac yn trefnu ymwelwyr i'r ysgol i gyfoethogi eu profiadau, gan gynnwys bardd plant Cymru. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth a'u Cymreictod. Mae hyn yn rhagoriaeth yn yr ysgol.

Mae'r cynlluniau gwaith newydd yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig profiadau ysgogol i'r disgyblion trwy gyfrwng themâu diddorol. Maent yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion gyfrannu at yr hyn maent am ei ddysgu. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau yn adeiladu'n ddigon systematig ar fedrau cyfredol y disgyblion i sicrhau dilyniant, ac yn arbennig i herio'r disgyblion mwy abl.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn, ac mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd synhwyrol o'r ardaloedd dan do a'r awyr agored i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd trwy bwyso llysiau a thrafod arian yn y siop. Mae cyfleoedd difyr i'r disgyblion gymhwyso eu medrau TGCh; er enghraifft, mae'r disgyblion yn rheoli'r crwydryn electronig i deithio ar hyd llwybr trwy'r jyngl yn fedrus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd eang i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd mewn amrywiaeth dda o gyd-destunau, er enghraifft trafod nodweddion iaith dramâu Shakespeare. Darperir cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau TGCh i gefnogi eu gwaith dosbarth, er enghraifft i gywain gwybodaeth hanesyddol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm i'r un safon uchel a welir yn y gwersi mathemateg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r modd y mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn gryfder sylweddol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae balchder y disgyblion yn eu Cymreictod yn rhagorol. Mae'r ethos Cymraeg a Chymreig sy'n bodoli yng nghymuned yr ysgol yn ymledu'n effeithiol iawn i'r gymuned leol. Nodwedd eithriadol o hyn yw'r modd y mae'r disgyblion yn arwain gwersi i staff arlwyo'r ganolfan gydol oes i wella'u defnydd o'r Gymraeg.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwych i ganu mewn cyngherddau, perfformio mewn sioeau ac i gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn hyrwyddo'u defnydd o'r iaith a'u dealltwriaeth o'u diwylliant yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn datblygu gallu mynegiannol, hunanhyder a gallu'r disgyblion i weithio fel tîm yn effeithiol.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae polisi drws agored yn sicrhau bod cyfathrebu rhwng y rhieni a'r ysgol yn effeithiol iawn. Defnyddir system ar-lein electronig fel modd o gyfathrebu'n llwyddiannus gyda rhieni a'u hysbysu am weithgareddau a digwyddiadau allweddol. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn

gwerthfawrogi'r cyfathrebu cyson ac yn teimlo bod yr ysgol yn barod i wrando ar eu safbwyntiau. Mae hyn yn eu hannog i chwarae rhan weithredol a llawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigeddau rhieni yn llwyddiannus i gefnogi'r dysgu ac i gyfoethogi profiadau disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae rhieni a chyfeillion yr ysgol yn cefnogi disgyblion i wella'u medrau darllen.

Mae'r staff yn defnyddio systemau olrhain a monitro trwyadl er mwyn mesur cynnydd disgyblion ar hyd eu taith drwy'r ysgol. Maent yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac yn rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion o oed ifanc. Mae'r athrawon a chymorthyddion dysgu yn cydweithio'n agos â'i gilydd i sicrhau bod disgyblion yn cael arweiniad pwrpasol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n glos gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion. O ganlyniad, mae cynlluniau effeithiol ar waith i sicrhau bod unigolion yn gwneud cynnydd cadarn iawn. Mae'r staff yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn fedrus ac yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol. Maent yn cynnal gweithdai arbenigol i rieni'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi eu plant yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys. Mae cyfleoedd buddiol ar gael i ymgymryd â sesiynau ymarfer corff mewn gwersi a chlybiau allgyrsiol fel rygbi a phêl-rwyd. Mae sesiynau ffitrwydd arbenigol fel taekwondo, yoga a Zumba yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r trefniadau effeithiol hyn yn ysgogi'r disgyblion i gadw'n heini. Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn fwriadus ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd meddwl yn ogystal â'u hiechyd corfforol. Enghraifft dda o hyn yw'r sesiynau meddwlgarwch dyddiol a gynhelir yn y dosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill. Yn yr ysgol mae nifer o bwyllgorau gweithgar. Maent yn hybu llais y disgybl ac eu hannog i gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau doeth. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith y pwyllgor 'Hawl i fod yn Hapus'. Mae'r pwyllgor yn gweithredu'n annibynnol i gefnogi disgyblion ac yn eu hannog i ofalu am ei gilydd. Mae'r aelodau yn cynorthwyo unigolion os oes rhywbeth yn eu poeni. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol, sydd yn seiliedig ar ddarparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion mewn awyrgylch Gymreig. Caiff y pennaeth ei gynorthwyo'n effeithiol gan ddirprwy ac uwch dîm rheoli cadarn. Mae'r pennaeth wedi datblygu cyfundrefn sydd yn dosbarthu cyfrifoldebau yn briodol i adrannau penodol yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau cyfredol yn sicrhau atebolrwydd ac arferion corfforaethol ar bob lefel arwain ar draws yr ysgol.

Mae'r arweinwyr ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn dechrau paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ar

gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, trwy ddefnyddio heriau o fewn themâu ysgogol. Yn ogystal, mae’r ffocws cryf ar ddatblygu’r siarter iaith yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddefnydd y disgyblion o’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanarfarnu trylwyr a chyfredol. Mae gan bob aelod o staff rôl fuddiol yn y gweithgareddau hyn ac mae arweinwyr yn craffu ar waith ac arsylwi gwersi i nodi cryfderau a meysydd i’w gwella. Mae’r ddogfen hunanarfarnu yn datgan darlun gonest o sefyllfa gyfredol yr ysgol, er yn rhy ddisgrifiadol ar adegau.

Mae’r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau i dargedu blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn bwrpasol. O ganlyniad, mae gan y staff ac uwch reolwyr ddealltwriaeth gadarn o’r meysydd sydd angen eu datblygu. Maent yn cynllunio’n effeithiol i gefnogi gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Mae blaenoriaethau’r cynllun datblygu wedi eu seilio’n uniongyrchol ar ddeilliannau’r gweithdrefnau hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnal a gwella safonau disgyblion. Mae’r trefniadau hyn yn arwain at welliannau’n llwyddiannus. Enghraifft weithredol o hyn yw'r strategaeth ‘Hawl i fod yn Hapus’ lle mae'r disgyblion yn hyrwyddo parch tuag at ei gilydd.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad a gwaith yr ysgol. Maent yn gefnogol iawn o nodau ac amcanion yr ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r llywodraethwyr wedi sefydlu pwyllgor strategol iechyd a diogelwch gyda’r ysgol uwchradd, gan eu bod yn rhannu’r safle. Maent yn gweithredu’n bwrpasol fel cyfeillion beirniadol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn fedrus. Gwneir hyn trwy ymweliadau cyson i’w dosbarthiadau cyswllt, yn ogystal â chwrdd â’r arweinwyr sy’n gyfrifol am brif flaenoriaethau’r ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn sicrhau bod yr ysgol wedi ei staffio'n briodol. Mae hyn yn cynnwys y staff cynorthwyol, sy’n cefnogi’r athrawon yn gadarnhaol iawn i godi safonau. Er enghraifft, maent yn cyfrannu at wella medrau darllen a medrau emosiynol a chymdeithasol y disgyblion trwy ymyraethau ysgogol.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer datblygu staff yn cysylltu’n uniongyrchol â’r systemau rheoli perfformiad cyfredol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ac arbenigedd y staff. Er enghraifft, mae’r cysylltiadau â meithrinfeydd cyswllt yr ysgol wedi gwella medrau arweinyddol nifer o staff y cyfnod sylfaen. Yn dilyn hyfforddiant defnyddiol, mae’r staff yn rhannu arferion da a’u harbenigedd gyda’u cydweithwyr yn rheolaidd. O ganlyniad, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau’r disgyblion wrth iddynt symud drwy’r ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau ac yn rheoli’r gyllideb a monitro effaith y gwariant yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r buddsoddiad diweddar mewn adnoddau TGCh newydd wedi galluogi’r disgyblion i ddatblygu eu medrau technoleg yn llwyddiannus. Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’r grant datblygu disgyblion. Enghraifft gadarn o hyn yw’r clwb maeth sydd yn gwella hyder, lles a phresenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/04/2018